Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Ynni Prydain Fawr

Rhagfyr 2024

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd Bil Ynni Prydain Fawr[1] ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 25 Gorffennaf 2024. Fe'i noddir gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net.

**2.** Mae teitl hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw:

> *"Make provision about Great British Energy."*[2]

**3.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn nodi:

> *"The purpose of this Bill is to enable the Secretary of State for Energy Security and Net Zero to designate a company as Great British Energy and place it on a statutory footing. Great British Energy will be an operationally independent company wholly-owned by the Government. Its objects will be to facilitate, encourage and participate in the production, distribution, storage and supply of clean energy; the reduction of greenhouse gas emissions from energy produced from fossil fuels; improvements in energy efficiency; and measures for ensuring energy Security".*[3]

**4.** Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 30 Hydref 2024 a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 18 Tachwedd 2024. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi i fod i ddechrau ar 3 Rhagfyr 2024.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol pan fo Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n gysylltiedig â materion datganoledig.

**6.** Ar 8 Awst 2024, gosododd Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru (Ysgrifennydd y Cabinet) ar y pryd,

---

[1] Bil Ynni Prydain Fawr, fel y'i cyflwynwyd
[2] Ibid
[3] Nodiadau Esboniadol i Fil Ynni Prydain Fawr, fel y'i cyflwynwyd paragraff 1

Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[4]

**7.** Yn dilyn ad-drefnu Cabinet Llywodraeth Cymru ar 11 Medi 2024, cymerodd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio (Ysgrifennydd y Cabinet), gyfrifoldeb am y Memorandwm.

**8.** Lle mae'r adroddiad yn tynnu ar ddatganiadau yn y Memorandwm, yr Ysgrifennydd y Cabinet dan sylw yw Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. Lle mae'r adroddiad yn tynnu ar dystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor ar 4 Tachwedd, yr Ysgrifennydd y Cabinet dan sylw yw Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.

**9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 15 Tachwedd 2024.[5] Ar 5 Tachwedd 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i newid y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad i 10 Ionawr 2025.[6]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**10.** Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a ganlyn[7]:

- cymal 1 – Great British Energy;
- cymal 2 – Crown status;
- cymal 3 – Objects;
- cymal 4 – Financial assistance;
- cymal 5 – Strategic priorities and plans;
- cymal 6 – Directions;

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Ynni Prydain Fawr, 8 Awst 2024
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr, 17 Medi 2024
[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaeth ar y Bil Ynni Prydain Fawr, 5 Tachwedd 2024
[7] Y Memorandwm, paragraffau 13 i 24

- cymal 7 – Annual accounts and reports;
- cymal 8 – Extent, commencement and short title.

**11.** Barn Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Memorandwm, yw bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn gan eu bod yn:

> *"… gwneud darpariaeth ynghylch Cymru sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; neu eu bod fel arall yn rhoi sylw i faterion datganoledig diogelu'r amgylchedd ac ansawdd aer, o ran hwyluso, annog a chymryd rhan yn y canlynol:*
>
> - *lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ynni a gynhyrchir o danwydd ffosil, sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd ac yn fater datganoledig, a*
> - *defnyddio ynni'n fwy effeithlon, sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd ac annog defnydd effeithlon o ynni trwy ddulliau heblaw gwahardd neu reoleiddio, sy'n faterion datganoledig.*
> - *cynhyrchu, dosbarthu, storio a chyflenwi ynni glân."*[8]

## Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

**12.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, mae Llywodraeth y DU yn pennu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 8 (yn rhannol) o'r Bil.[9]

**13.** Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod "Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil hwn".[10]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru fel y'i nodir yn y Memorandwm

**14.** Mae Rheol Sefydlog 29.3(iii) yn darparu bod rhaid i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol esbonio a fernir ei bod yn briodol i ddarpariaeth ddatganoledig gael ei gwneud drwy gyfrwng Bil. Ni ddarperir datganiad o'r fath, nac esboniad llawn, yn y Memorandwm.

---

[8] Y Memorandwm, paragraff 13
[9] Nodiadau Esboniadol i Fil Ynni Prydain Fawr, fel y'i cyflwynwyd, Atodiad A
[10] Y Memorandwm, paragraff 25

**15.** Ym mharagraff 11 o'r Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan bod nodau a gweithrediadau Ynni Prydain Fawr a gweithrediadau presennol Llywodraeth Cymru yn gorgyffwrdd, yn fwyaf uniongyrchol drwy'r cwmni Trydan Gwyrdd Cymru[11], a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystad Llywodraeth Cymru.

**16.** Yn y Memorandwm, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn datgan ymhellach:

> *"Ni fydd y Bil yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i barhau i gefnogi Trydan Gwyrdd Cymru gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt. "…oherwydd lefel strategol uchel y Bil hwn a'r wybodaeth sydd ar gael am Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol ar hyn o bryd, mae'n anodd gwybod beth fydd effaith gweithrediadau Ynni Prydain Fawr fel cwmni na beth fydd gwrthdaro'r gystadleuaeth bosib â Trydan Gwyrdd Cymru neu agweddau eraill ar swyddogaethau cyflenwi ynni Llywodraeth Cymru."*[12]

**17.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau yn y Memorandwm y bu swyddogion Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod bwriad y polisi Ynni Prydain Fawr a bod Bil drafft wedi'i rannu â swyddogion cyn ei gyflwyno. Fodd bynnag, dywed Ysgrifennydd y Cabinet na chafodd Llywodraeth Cymru gyfle i gyd-ddatblygu polisi na drafftio "oherwydd prinder amser".[13]

**18.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn cadarnhau, er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil ac Ynni Prydain Fawr yn gyffredinol, mae'n ceisio trafod ymhellach â Llywodraeth y DU ynghylch rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd yn y Bil.[14]

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**19.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 7 Hydref 2024.[15]

**20.** Ar 10 Hydref 2024, gwnaethom ysgrifennu[16] at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, yn ei gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi

---

[11] Trydan Gwyrdd Cymru
[12] Y Memorandwm, paragraff 12
[13] Y Memorandwm, paragraff 10
[14] Y Memorandwm, paragraff 28
[15] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 7 Hydref 2024
[16] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, 10 Hydref 2024

tystiolaeth ar faterion sy'n ymwneud â'r Memorandwm. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn bresennol yn ein cyfarfod ar 4 Tachwedd 2024.[17]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**21.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen trafodaeth bellach â Llywodraeth y DU cyn y gallai Llywodraeth Cymru argymell cydsyniad, gan ychwanegu y bu ymgysylltu da ar lefel swyddogion a hefyd ar lefel gweinidogion.[18]

**22.** Wrth grynhoi safbwynt Llywodraeth Cymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru'n gefnogol iawn i'r cynnig i sefydlu Ynni Prydain Fawr, a'i bod yn gweld llawer iawn o botensial yno, yn enwedig o ran gweithio gyda Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru[19]. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud:

> *"But as we set out in the LCM, we are having some further discussions with the UK Government, particularly on what the role of the Welsh Ministers would be, and of course of the Senedd, in respect of aspects of the Bill. So, I'll provide some further information to the Senedd once those conversations have concluded."*[20]

**23.** Ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet ar ei sylwadau am y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU a, phan ofynnwyd iddi pa newidiadau penodol i'r Bil yr hoffai Llywodraeth Cymru eu gweld cyn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad, dywedodd:

> *"I think one is around what the role is for Welsh Ministers and for the Senedd. One example of a change could be around the changing of 'consult' to 'consent'. I think that would be probably one of the most simple ways in which we could address some of the concerns that have been raised. But… there are other ways in which we could look to potentially make changes as well."*[21]

---

[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [8]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [10].
[19] Ynni Cymru
[20] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [9]
[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [73]

**24.** O ran cynnydd tebygol y Bil drwy Senedd y DU, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod rhywfaint o ansicrwydd o hyd, ond bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl y byddai angen i'r Senedd ystyried cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.[22]

## Ymgysylltu â Llywodraeth y DU

**25.** Ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet ar yr ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil fel a ganlyn:

> *"So, we've had really good discussions with UK Government. I met with Michael Shanks, the lead Minister for the Bill in the Department for Energy Security and Net Zero, on 24 October. I did set out the welcome for Great British Energy, the focus that the UK Government is putting on renewables, and was able to set out the work that we've already been doing in this space, particularly around Ynni Cymru and Trydan Gwyrdd Cymru. So, those discussions were very good, but I was really clear that our concerns, really, are around the role of Welsh Ministers and of the Senedd as we move forward. And then I know, at official level, the discussions have been frequent and ongoing in that space as well."*[23]

**26.** Ychwanegodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"In terms of the conversations that we tend to have at official level on any UK Bill, there will be an exploration of the various sorts of precedents that the Senedd have supported over the past few years and beyond, as well as other potential solutions that maybe haven't been explored in the past—obviously, always through the spectrum of ensuring that our principles are respected, and also that the Senedd's positions that have been taken over the last few years are reflected in those*

[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [77]
[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [42]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [88]

> *conversations as well. Hence the reason why the various types of solutions are being explored…”.*[24]

## Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru

**27.** Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm[25], ceir gorgyffwrdd rhwng nodau a gweithrediadau Ynni Prydain Fawr a gweithrediadau presennol Llywodraeth Cymru, yn fwyaf arbennig drwy'r cwmni Trydan Gwyrdd Cymru.

**28.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *“All this Bill does, essentially, is set up Great British Energy, or allow it to be designated, and then set out the strategic priorities for it. So, those discussions about how we will work in partnership with the UK Government, through Trydan Gwyrdd Cymru and Ynni Cymru, are ongoing at the moment, because, as we've heard, the UK Government is fairly early on in its thinking. So, whilst the legislation will set up Great British Energy, what comes next and how it does it are still part of the policy development, but we're involved in those discussions.”*[26]

**29.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd hi eisiau gweld dyblygu mewn unrhyw ffordd, na'r ddwy lywodraeth yn gweithio yn erbyn ei gilydd yn anfwriadol. Dywedodd fod angen i'r ddwy lywodraeth fod yn gweithio gyda'i gilydd a dod o hyd i gyfleoedd i gydweithio.[27]

**30.** Ychwanegodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet:

> *“We've been taking a much more planned approach, as you know, in Wales, to the energy system. We've now got local energy plans across the whole of the country. We're actually able now to feed in, in a proactive way, to this strategic spatial energy plan that's now been co-commissioned between the three Governments. And actually, Great British Energy then is*

---

[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [62].
[25] Y Memorandwm, paragraff 11
[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [91]
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [92]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [105]

*the opportunity to perhaps create more of the value, as that's delivered, but retain more of that value in Wales.*

*From my perspective, one of the problems about our policy on ownership, that we should have more of this generation owned in Wales than we previously had, has been finding the counter parties and finding those citizen representative bodies that have got the ability and the competence to invest in this. And, potentially, that's one of the areas where we can work alongside Great British Energy, to make sure that a GB stake can be taken in some of those projects that are too big and too complex for any of the community and local organisations that we support and work with. So, I think there are huge opportunities there.*

*I think one of the key things, really, in delivering the climate change challenges and the plans that we've got for energy is that it's not about who should make the decisions, really; it's more about how do we all work together. The structures at the UK, the Welsh, the regional and the local level all need to be pointing in the right direction, so that we've got that bottom-up project-level information that can then accelerate that delivery in Wales, I think."*[28]

**31.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod wedi bod yn awyddus i bwysleisio wrth Weinidogion Llywodraeth y DU, os ydynt am wneud cynnydd cyflym a chael enillion cynnar yn y maes hwn, yna Cymru yw'r lle i wneud hynny, gan ein bod ni gymaint ar y blaen o ran y cynlluniau a'r strwythurau.[29]

**32.** Gwnaethom dynnu sylw Ysgrifennydd y Cabinet at y ffaith mai safbwynt Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Memorandwm, yw na fyddai'r Bil yn cyfyngu ar allu Gweinidogion Cymru i barhau i gefnogi Trydan Gwyrdd Cymru gan ddefnyddio'r pwerau presennol sydd ar gael iddynt. Gwnaethom ofyn a oedd sicrwydd o'r fath wedi'i roi gan Lywodraeth y DU, ac a fyddai'r Bil yn cael ei

[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [93] i [95]
[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [96]

ddiwygio i adlewyrchu unrhyw sicrwydd o'r fath. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"We established Trydan Gwyrdd Cymru using the executive powers of Welsh Ministers, so there's nothing in the Bill that would affect that, so, in that sense, we don't see the need to see any specific amendments in that context."*[30]

**33.** O ran newidiadau i'r Bil y mae Llywodraeth Cymru'n eu ceisio, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod am weld rôl gryfach i Weinidogion Cymru a'r Senedd o ran pennu'r blaenoriaethau strategol, ac mai dyna oedd y prif faes sy'n peri pryder gyda'r Bil.[31] Dywedodd wrthym hefyd:

> *"So, if those strategic priorities are in areas where we have devolved responsibility, for example, Warm Homes, then, obviously, there needs to be a role for the Welsh Government and for the Senedd in those discussions, and that's where we're having the particular discussions at the moment."*[32]

**34.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet, pe bai'r blaenoriaethau strategol yn caniatáu i Lywodraeth y DU fuddsoddi mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, y byddai angen i Lywodraeth Cymru fod â mesurau diogelu ar waith fel bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud yma.[33]

**35.** Dywedodd swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd nad oedd unrhyw beth yn y Bil hwn yn cyfyngu ar bwerau Gweinidogion Cymru ond, yn amlwg, fod rhyngweithio rhwng y polisïau datganoledig o ran gweithredu'r gwahanol gyrff. Ychwanegodd:

> *"With further clarity and assurances, at the very least, you would have a better understanding of how those two areas exist together, whether that's done in legislation or not. But from that*

[30] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [118]
[31] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [122]
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [118]
[33] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [120]

> *kind of amendment perspective, I don't think it constrains powers, is what we would conclude.”*[34]

**36.** Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet beth fyddai creu Ynni Prydain Fawr yn ei olygu i waith Trydan Gwyrdd Cymru (ac Ynni Cymru); yn benodol, a fyddai gwaith Trydan Gwyrdd Cymru bellach yn gyfyngedig, neu a oedd pethau’n cael eu gohirio nes bod gwell dealltwriaeth o sut y byddai Ynni Prydain Fawr yn gweithredu. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod am roi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru’n dal i weithio’n galed ar Trydan Gwyrdd Cymru a’r cyllid ychwanegol y mae wedi’i roi i Ynni Cymru hefyd. Ychwanegodd:

> *“So, Trydan Gwyrdd Cymru, we've got five particular projects that we're working on at the moment, so we'll continue to pursue all of those projects, moving those forward as well. As we've heard, the discussions are ongoing about how we might work together, but it's still relatively early days, I think, for Great British Energy, so we're not going to wait around.”*[35]

**37.** Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i rannu rhagor o wybodaeth â’r Senedd am rôl ehangach Ynni Prydain Fawr cyn gynted ag y bydd ar gael[36], a gwnaeth ymrwymiad hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgorau'r Senedd ar drafodaethau rhynglywodraethol wrth iddynt fynd rhagddynt.[37]

## Pwerau dirprwyedig yn y Bil

**38.** Mae cymal 6 yn rhoi pwerau cyfarwyddo eang i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni Prydain Fawr. Gallai’r cyfarwyddiadau hyn gael effaith uniongyrchol ar feysydd datganoledig. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet a oedd hi’n fodlon â’r dull hwn. Gwnaethom ofyn hefyd am ei barn ynghylch a ddylai Gweinidogion Cymru gael eu rhestru fel ymgynghorai statudol ar wyneb y Bil, neu a ddylai fod gofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn ogystal, gwnaethom ofyn a oedd hi wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU

---

[34] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [121]
[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [37]
[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [139]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [107]

ynghylch a ellid arfer y pwerau cyfarwyddo ar y cyd neu ar yr un pryd os ydynt yn ymwneud â materion datganoledig. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"At the moment, we do have those reassurances from the UK Government that we will be consulted, but actually we want to see more than just being statutory consultees in this space. Again, it comes back to the heart of the discussion about the way in which Welsh Government Ministers, and also the Senedd, will be involved. So, again, this is one of those spaces where we could look to consent, rather than consult. That's the kind of space that we've having those discussions in, although, as the team has said, there might be other solutions as well. But it really is about respecting and understanding the role of the Welsh Government and the Senedd."*[38]

## Asesiadau o effaith

**39.** Barn Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Memorandwm, yw na fydd unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru os bydd y Senedd yn cydsynio bod y darpariaethau'n berthnasol i Gymru. Gwnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet pa asesiadau effaith rheoleiddiol ac ariannol yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal ar ddarpariaethau'r Bil a fydd yn effeithio ar Gymru. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

> *"…the UK Government's impact assessment of that Bill doesn't include details in relation to financial allocations, and the reason for that is because that work will come next and it will come with the business cases in terms of the proposals for investment and so on."*[39]

**40.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod dull Llywodraeth y DU yn ymddangos yn rhesymol.[40]

**41.** Pan wnaethom geisio eglurder ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal asesiadau yn ddiweddarach, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [144]. Gweler hefyd Cofnod y Trafodion [147]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [26]
[40] Ibid

*"So, we think that it would be the UK Government that would be providing that greater level of detail, particularly around the business cases. Of course, there's that interrelationship with Ynni Cymru and Trydan Gwyrdd Cymru as well, which, again, is at an early development stage, because this Bill is simply about setting up Great British Energy, and, what comes next in terms of the projects that are supported, they will obviously have the impact assessments and so on attached to them."*[41]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**42.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 25 Tachwedd 2024.[42]

## Ein barn ni

### Darpariaethau sydd angen cydsyniad

**43.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**44.** Nodwn hefyd fod Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 8 o'r Bil.

**45.** Nodwn ymhellach fod y Memorandwm yn dawedog ynghylch a ddylai'r Senedd gydsynio i'r Bil, ac rydym yn tynnu sylw'r Senedd at hynny.

**46.** Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am safbwynt Llywodraeth Cymru ar ôl ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU. Fel y nodir isod, rydym yn codi cyfres o bryderon am y darpariaethau yn y Bil. Gyda'r rhain mewn golwg, credwn ei bod yn hollbwysig bod Ysgrifennydd y Cabinet yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn rheolaidd am safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil.

[41] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 4 Tachwedd 2024, Cofnod y Trafodion [29]
[42] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Tachwedd 2024

**Argymhelliad 1.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'r Senedd yn rheolaidd am safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil, i'w galluogi i lunio barn ynghylch a ddylai roi ei chydsyniad ai peidio.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU a'r gorgyffwrdd rhwng Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru

**47.** Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y Bil. Mae'n anffodus felly fod materion sylweddol heb eu datrys, nid lleiaf y potensial am wrthdaro – neu o leiaf ddyblygu gwaith – rhwng Ynni Prydain Fawr a Trydan Gwyrdd Cymru.

**48.** Nodwn, gyda pheth pryder, farn Llywodraeth Cymru (fel y'i nodir yn y Memorandwm) ei bod yn "anodd gwybod beth fydd effaith gweithrediadau Ynni Prydain Fawr fel cwmni na beth fydd gwrthdaro'r gystadleuaeth bosib â Trydan Gwyrdd. Cymru neu agweddau eraill ar swyddogaethau cyflenwi ynni Llywodraeth Cymru".

**Casgliad 2.** Rydym yn pryderu ei bod yn debygol y gofynnir i'r Senedd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cydsynio i'r Bil ai peidio heb wybod digon o fanylion am weithrediad arfaethedig Ynni Prydain Fawr ac felly ei effaith bosibl ar Trydan Gwyrdd Cymru.

**Casgliad 3.** Yn ein barn ni, mae deall sut y bydd Ynni Prydain Fawr yn gweithio ochr yn ochr â Trydan Gwyrdd Cymru, sydd eisoes wedi'i sefydlu, yn ffactor hollbwysig yn y broses o benderfynu a ddylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil.

**49.** Nodwn hefyd y sylwadau gan swyddog a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet a ddywedodd nad pwy ddylai wneud y penderfyniadau sy'n bwysig wrth ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd. Rydym yn cydnabod bod llawer o leisiau a phobl yn ymwneud â mynd i'r afael â heriau'r newid yn yr hinsawdd. Serch hynny, dylai darpariaethau deddfwriaethol a fframweithiau cyfreithiol adlewyrchu a pharchu ffiniau datganoli. Ni ddylai'r Senedd a Gweinidogion Cymru ildio'r pŵer i wneud penderfyniadau, na'r gallu i fynd ar drywydd blaenoriaethau Cymru. Nid yw hyn yn golygu na all partneriaid hollbwysig, fel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gydweithio, a gellid dylunio'r gyfraith i ganiatáu cydweithio o'r fath ond gyda'r mesurau diogelu priodol; byddai mesurau diogelu a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ei hun yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yma.

## Pwerau dirprwyedig yn y Bil

**50.** Nodwn fod cymal 6 o'r Bil yn rhoi pwerau cyfarwyddo eang i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni Prydain Fawr, ac y gallai unrhyw gyfarwyddwyd o'r fath gael effaith uniongyrchol ar feysydd datganoledig.

**51.** Ar hyn o bryd, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd o dan gymal 6 heb gael cydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd, nac ymgynghori â nhw, pe na bai'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod ymgynghoriad o'r fath yn briodol.

**Casgliad 4.** Mae galluogi Llywodraeth y DU i roi cyfarwyddyd yng Nghymru sy'n ymwneud â meysydd datganoledig heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad gan y Senedd neu Lywodraeth Cymru yn amhriodol. Fel y cyfryw, rydym yn pryderu am ehangder y pŵer y mae cymal 6 o'r Bil yn ei gynnig i Weinidogion Llywodraeth y DU.

**52.** Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn rhoi cyfarwyddyd o dan gymal 6. Fodd bynnag, bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol nad yw sicrwydd yn rhwymo Llywodraeth y DU; dim ond darpariaeth mewn Bil a all sicrhau rôl ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

**Casgliad 5.** Rydym yn croesawu datganiadau Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn trafod newid i'r Bil gyda Llywodraeth y DU fel bod rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gellir rhoi cyfarwyddyd cymal 6.

**53.** Serch hynny, byddai rôl i Weinidogion Cymru yn unig yn dal i olygu y byddai'r Senedd yn cael ei hepgor yn y materion hyn. Fel y nodwn uchod, mae'n destun pryder ei bod yn debygol y gofynnir i'r Senedd wneud penderfyniad ynghylch a ddylid cydsynio i'r Bil ai peidio heb wybod digon o fanylion am weithrediad arfaethedig Ynni Prydain Fawr ac felly ei effaith bosibl ar Trydan Gwyrdd Cymru.

**Casgliad 6.** O ystyried y gallai fod yn ofynnol i'r Senedd wneud ei phenderfyniad ynghylch cydsyniad yn absenoldeb gwybodaeth bwysig ac o ystyried yr ansicrwydd ynghylch effaith Ynni Prydain Fawr, credwn y dylid diwygio'r Bil i gynnwys rôl ffurfiol i'r Senedd mewn cysylltiad ag arfer unrhyw bwerau dirprwyedig o dan y Bil gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**54.** Nodwn fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud wrthym fod ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru geisio gwneud newidiadau o bosibl i'r Bil.

**55.** Nodwn hefyd y sylwadau a wnaed gan swyddog a oedd yn bresennol gydag Ysgrifennydd y Cabinet y bydd gwahanol fathau o gynseiliau y mae'r Senedd wedi'u cefnogi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a thu hwnt, yn ogystal ag

atebion posibl eraill sydd efallai heb eu harchwilio yn y gorffennol, yn cael eu harchwilio wrth drafod â Llywodraeth y DU. Er ein bod yn deall rhesymeg 'peidio â cheisio ailddyfeisio'r olwyn' wrth drafod a chwilio am atebion, credwn ei bod yn bwysig bod pob Bil a phob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn unigol.

**56.** Fel y cyfryw, credwn y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi eglurder i'r Senedd ynghylch yr opsiynau sy'n cael eu hystyried.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi'r gwahanol ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru'n ceisio i'r Bil gael ei ddiwygio i sicrhau rôl i Weinidogion Cymru a'r Senedd.

## Asesiadau effaith

**57.** Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet fod y ffaith nad yw Llywodraeth y DU yn cynnal asesiad o effaith ariannol y Bil ar hyn o bryd yn ymddangos yn rhesymol oherwydd ei barn y bydd y gwaith hwnnw'n dod gydag achosion busnes ar gyfer y cynigion ar gyfer buddsoddi.

**58.** Pan wnaethom ofyn am eglurder ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal ei hasesiadau ei hun maes o law, roeddem yn siomedig ag ymateb Ysgrifennydd y Cabinet mai Llywodraeth y DU fyddai'n darparu'r gwaith manwl hwnnw, yn enwedig mewn perthynas â'r achosion busnes. Mae hyn yn peri pryder penodol i ni oherwydd cydberthynas Ynni Prydain Fawr ag Ynni Cymru a Trydan Gwyrdd Cymru; perthynas a gydnabyddir gan Ysgrifennydd y Cabinet.

**59.** Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ymwybodol o sylwadau rydym wedi'u gwneud o'r blaen ynghylch pan fydd Llywodraeth Cymru'n cynnig Bil, y byddai angen asesiad effaith rheoleiddiol yn unol â Rheolau Sefydlog y Senedd. Gyda darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer Cymru yn cael ei chynnwys mewn Bil y DU a thrwy beidio â darparu asesiad effaith penodol i Gymru, mae gallu'r Senedd i graffu ar oblygiadau ariannol a rheoleiddiol eraill y ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar fywydau dinasyddion Cymru yn cael ei lesteirio.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi mwy o wybodaeth ac eglurder ynghylch pam nad yw Llywodraeth Cymru'n credu bod angen iddi gynnal ei hasesiadau ei hun o effaith bosibl y Bil ar faterion datganoledig.

## Materion y DU-UE

**60.** Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn cynnwys dyletswyddau i reoleiddwyr a chyrff ynni'r DU a'r UE gydweithredu ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n flaenorol i gynnwys dadansoddiad o'r fath o'r Cytundeb mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodir gerbron y Senedd fel mater o drefn.[43] Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad o'r fath.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio a chadarnhau sut y mae'r Bil yn rhyngweithio â rhwymedigaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

[43] Rhoddwyd yr ymrwymiad hwn yn Ymateb Llywodraeth Cymru (Ionawr 2024) i Adroddiad Blynyddol 2022-23, Cysylltiadau Rhyngwladol y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (Tachwedd 2023)